

09/12/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ga i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth barhaus i ni fel ysgol yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan gynnwys sicrhau bod eich plentyn yn glynu'n dynn at y mesurau diogelwch Cofid allweddol sydd yn eu lle y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Yn unol â neges y Llywodraeth, mae angen i ni gyd i barhau i wneud penderfyniadau doeth o ran peidio â chymysgu tu allan i'n cartrefi yn ein hamser hamdden er lles pob un ohonom sydd yn rhan o gymuned yr ysgol.

Fel y gwelwch ar y [linc yma](#), mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu newid a lleihau'r cyfnod hunan ynysu o 14 diwrnod i 10 diwrnod o yfory ymlaen. Golyga hyn yr angen i ystyried addasu'r cyfnodau ynysu ar gyfer disgyblion blynyddoedd 8 a 10 sy'n hunanynysu ar hyn o bryd.

Fel y gwyddoch dwi'n siŵr, mae'r gwasgedd ar lefelau staffio Bryn Tawe, fel mewn nifer o ysgolion eraill, yn cyrraedd lefelau pryderus iawn. Mae sicrhau rhedeg yr ysgol yn ddiogel i'r disgyblion sydd yn mynychu, a chynnal dysgu o bell yn mynd yn anoddach oherwydd hyn. Mae yna nifer gynyddol o staff Bryn Tawe wedi profi'n bositif, yn ynysu wrth aros am brofion ac yn wynebu anawsterau gwarchod plant eu hunain. Mae hyn ar ben absenoldebau am salwch ar wahân i Cofid, fel rydym yn gweld yn flynyddol adeg yma'r flwyddyn, yn ogystal â diffyg argaeledd athrawon cyflenwi ar hyn o bryd.

Yn sgil yr uchod, ni fydd yn bosib i ni wahodd blwyddyn 10 yn ôl i'r ysgol yfory oherwydd ein pryderon staffio presennol. Byddwn felly yn parhau i **gynnal gwersi dyddiol dysgu o bell i ddisgyblion blwyddyn 10 ar gyfer yfory a dydd Gwener, gyda phawb yn dychwelyd ar ddydd Llun 14/12/20**. Oherwydd gwasgeddau staffio wythnos nesaf, byddwn yn glynu at y dyddiad gwreiddiol **gyda blwyddyn 8 lle byddant yn dychwelyd ar yr 16/12/20**. Bydd hyn yn ein caniatâu i ni gynnal lefelau staffio diogel yn yr ysgol, fel mae'n sefyll ar hyn o bryd.

Ga i bwysleisio, fod y sefyllfa staffio yn newid yn ddyddiol ac fesul awr ar adegau, fel mewn nifer o sectorau. Mae'n anodd iawn felly sicrhau na fyddwn yn cael ein gorfodi i ystyried gofyn i flynyddoedd penodol i symud i ddysgu o bell am gyfnodau cyn diwedd y tymor. Deallwn ba mor anghyfleus yw hyn i'n rhieni a bydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu cyfathrebu'n glir a chyn gynted ag y gallwn.

Yn ogystal, mae nifer o'n rhieni wedi bod yn cysylltu i drafod cadw'ch plentyn i ffwrdd o'r ysgol hyd at y Nadolig. Cydymdeimlwn yn llwyr gyda safbwynt ein rhieni yn yr achosion yma ble'r bwriad yw i geisio amddiffyn perthnasau mwy bregus neu hŷn wrth ynysu cyn y Nadolig. Deallwn y rhesymeg yma, ond ni allwn fel ysgol awdurdodi absenoldeb o'r fath yn ffurfiol (gweler y [llythyr yma](#) gan Gyfarwyddwr Addysg Dros Dro Abertawe). Serch hyn, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau dilynol neu gosbi disgyblion na fydd yn mynychu am y rheswm yma. Ni fydd yn bosib darparu gwersi byw yn yr achosion yma, ond bydd gwaith ar gael i ddisgyblion drwy Teams.

Byddwn yn cysylltu gyda rhieni disgyblion cyn gynted â phosib os bydd angen i ni wneud y penderfyniad anodd o symud i ddysgu o bell gyda blynyddoedd penodol. Yn y cyfamser, os ydych am drafod unrhyw fater, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL | Aur

